

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL

3 Chwefror 2016

Yn Bresennol: Cynghorydd M James (Cadeirydd)

Mr D Ellis, Cynghorydd ML Evans, Cynghorydd P Harries, Cynghorydd S Hudson, Mrs G Hayward, Cynghorydd L Jenkins, Cynghorydd R Kilmister, Cynghorydd RM Lewis, Cynghorydd PJ Morgan, Cynghorydd R Owens, Cynghorydd D Rees, Mr AE Sangster, Mrs M Thomas, Cynghorydd A Wilcox a'r Cynghorydd M Williams.

(Swyddfa APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.00am – 12.25pm)

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriad am fod yn absennol oddi wrth Mr A Archer a Ms C Gwyther.

2. Gair o Groeso

Estynnodd y Cadeirydd groeso i swyddogion Swyddfa Archwilio Cymru, yn ogystal ag i Ms Hannah Dahill a Mrs Liz Williams, dwy o'r tri o bobl oedd â diddordeb mewn dod yn Aelodau o'r Awdurdod ac yn cymryd rhan yng nghynllun yr Awdurdod ar Fentora. Nid oedd y trydydd person, Ms Karen Maddock-Jones, yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod y diwrnod hwn.

3. Datgan Buddiannau

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

4. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 18^{fed} o Dachwedd 2015 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

PENDERFYNWYD cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 18^{fed} o Dachwedd 2015.

5. Materion yn codi

(a) Melin Caeriw – to newydd (Cofnod 5(a))

Dywedodd y Prif Weithredwr wrth yr Aelodau bod y gwaith o osod to newydd ar y felin wedi'i gwblhau ac y byddai'r swyddogion yn gwneud pob ymdrech i adennill y costau i'r Awdurdod o ran y llechi, ond roedd eu dwylo, i raddau, wedi'u clymu.

NODWYD.

6. Adroddiadau o amrywiol gyfarfodydd Pwyllgorau'r Awdurdod

Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol o gyfarfodydd sawl un o Bwyllgorau'r Awdurdod gerbron yr Aelodau i'w hystyried/er gwybodaeth:



- (i) Pwyllgorau Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 12 Hydref, 11 Tachwedd ac 16 Rhagfyr 2015
- (iii) Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2015
- (iii) Pwyllgor Adolygu Gweithredol a gynhaliwyd ar 9 Rhagfyr 2015

7. Adroddiad y cyfarfod o Banel Adolygu Perfformiad y Prif Weithredwr
Cafodd adroddiad y cyfarfod o Banel Adolygu Perfformiad y Prif Weithredwr a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2015 ei gyflwyno i'w fabwysiadu.

Nodwyd y dylid fod wedi cyfeirio at Mr Sangster fel Cadeirydd y Llynedd o'r APC yn hytrach nag Is-gadeirydd, yn y rhestr o'r rhai oedd yn bresennol.

PENDERFYNWYD mabwysiadu adroddiad y cyfarfod o Banel Adolygu Perfformiad y Prif Weithredwr a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2015 cyn belled ag y gwneir y cywiriad uchod.

8. Swyddfa Archwilio Cymru: Cyflawni â Llai: Gwasanaethau Cynllunio
Estynnodd y Cadeirydd groeso i Mr John Roberts ac i Mr Rob Hathaway o Swyddfa Archwilio Cymru. Eglurodd Mr Roberts y gwneir astudiaethau llywodraeth leol bob blwyddyn ar un pwnc ar draws Cymru gyfan fel rhan o waith yr Archwilydd Cyffredinol. Yn 2014/15 y pwnc oedd gwasanaethau hamdden. Fodd bynnag gan nad oedd hyn yn gymwys i'r Parciau Cenedlaethol roedd y ffocws yn yr Awdurdodau hyn ar gynllunio. Roedd y gwaith hwn wedi'i ariannu gan gronfa gyfunol Cymru yn hytrach nag o ffioedd lleol. Roedd oedi wedi bod cyn cyhoeddi'r adroddiad terfynol, ac oherwydd yr oedi, roedd yr Awdurdodau wedi gofyn i'r Archwilydd ystyried ffigurau 2014/15 oedd ar gael cyn i'r adroddiad gael ei gyhoeddi.

Aeth yr Archwilydd oedd wedi cyflawni'r gwaith, Mr Rob Hathaway, rhagddo i gyflwyno'r adroddiad. Roedd ei ganfyddiadau yn gadarnhaol ar y cyfan, a gallai'r argymhellion oedd wedi'u gwneud fod yn berthnasol i raddau helaeth i'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yn ogystal ag i'r Cynghorau yn gyffredinol, petai'r pwnc hwn wedi cael ei wyntyllu yn eu hardaloedd hwy. Yn gyffredinol roedd yr adroddiad wedi dod i'r casgliad bod gwella arweinyddiaeth a chanolbwyntio ar y gymuned yn ategu gwell perfformiad o ran cynllunio, er nad oedd dulliau'r Awdurdod o gydweithredu â'r parciau cenedlaethol eraill a'r awdurdodau cynllunio yng Nghymru a llwyddo i gael gwerth am arian, yn ddigon cadarn. Roedd yr adroddiad yn gwneud pedwar argymhelliad, ac roedd y ddau gyntaf yn gyffredin â'r ddau APC arall. Dywedodd Mr Hathaway bod yr Awdurdod wedi gwneud gwelliannau ers i'r gwasanaeth gael ei asesu ddiwethaf a'i fod yn paratoi'r ffordd ar gyfer gwelliannau pellach yn y dyfodol.



Wrth ddiolch i'r Archwilydd am ei adroddiad, dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu bod yr adroddiad yn adroddiad cadarnhaol a'i fod yn amlygu gwaith caled ac ymroddiad y swyddogion. Cyfeiriodd Aelod arall at y perygl o roi gormod o bwysau ar y staff drwy'r pwyslais ar wneud arbedion drwy ostwng nifer y gwasanaethau, nifer y staff a'r costau. Roedd yn cydsynio nad mater archwilio oedd hyn ond ei fod yn fater yr oedd yn rhaid i'r Aelodau ei gymryd i ystyriaeth. Roedd yr Archwilydd o'r farn y gellid ystyried y cyfryw faterion drwy feincnodi'n effeithiol â chyrff eraill. Hefyd nodwyd bod yr Awdurdod wedi defnyddio ymgynghorwyr mewn modd cost-effeithiol i helpu i gadw'r ddysgl yn wastad rhwng yr adegau brig a'r llai prysur yn y gwaith.

Gan droi at y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI), gan mai hwn oedd y cynllun cyntaf i'w fabwysiadu, roedd rhai Aelodau yn bryderus na ellid dysgu gwersi o'r polisiau oedd eisoes wedi'u mabwysiadu gan Awdurdodau eraill, ac roeddent yn ofni bod hyn wedi effeithio ar y banc tir annigonol sydd gan yr Awdurdod ar hyn o bryd. Roedd yr Archwilydd yn anghytuno bod unrhyw gydberthynas, gan ddweud bod Awdurdodau eraill yn yr un sefyllfa gan ddibynnu ar hyfywedd safleoedd a pha safleoedd a gynigir gan dirberchnogion. Barnai y byddai'r mater hwn yn derbyn sylw yn yr adolygiad o'r CDLI oedd ar y gweill ar hyn o bryd. Hefyd roedd o'r farn ei bod yn beryglus i awgrymu y gellid defnyddio tir y tu allan i derfynau'r aneddiadau fel safleoedd eraill y gellid eu defnyddio, ac y gallai Cynghorwyr fod o gymorth fel arweinwyr y gymuned, i gynnig tir gerbron drwy gydweithredu â'r swyddogion.

Ymatebodd y Cyfarwyddwr Cynllunio bod y swyddogion yn hapus â'r adroddiad oed yn dangos bod camau ymlaen wedi'u cymryd. O ran yr argymhelliad y dylid cael mwy o weithio ar y cyd, roedd cysylltiadau agosach yn cael eu meithrin gyda Chyngor Sir Penfro ers iddynt benodi Pennaeth Cynllunio newydd. Er ei bod yn siomedig nad oedd rhagor o waith wedi'i wneud i ddatblygu system newydd i'r Awdurdod o reoli dogfennau, roedd y gwaith o ymchwilio i'r systemau a ddefnyddir gan Awdurdodau eraill yn parhau, ac arian wedi'i neilltuo ar gyfer gweithredu'r system. O ran codi tâl am waith cyn-ymgeisio, byddai hyn yn cael ei weithredu led led y sir yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Llongyfarchodd y Cadeirydd y Cyfarwyddwr a'i dîm am y gwaith caled a wnaed, a diolchodd i'r Archwilwyr.

NODWYD.

9. Cynllunio Cyllideb Drafft 2016/17

Roedd adroddiad y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Ariannol yn nodi'r cyllidebau Refeniw a Chyfalaf drafft ar gyfer 2016/17 a'r rhagamcanion ar gyfer 2017/18 i 2020/21, ardoll ddrafft 2016/17 ar Gyngor Sir Penfro, y



Dangosyddion Materion Ariannol ar gyfer y rhaglen gyfalaf, a Strategaeth Buddsoddi a Datganiad Polisi ar Reoli'r Trysorlys ar gyfer 2016/17.

Roedd y gwaith o ddatblygu cyllidebau refeniw a chyfalaf drafft yr Awdurdod ar gyfer 2016/17 wedi'i wneud yn ystod cyfnod heriol parhaus i'r sector cyhoeddus gyda'r gostyngiad cyson blwyddyn ar ben blwyddyn yn y Grant i'r Parc Cenedlaethol a'r Ardoll ddilynol ar Gyngor Sir Penfro. Roedd cwrdd â'r pwysau ariannol yn gofyn am ddull trylwyr o glustnodi arbedion effeithlonrwydd, gwneud y mwyaf o gyfleoedd i gael ffrwd ariannu di-graidd ac ail-flaenoriaethu gwariant o fewn y gwasanaethau.

Roedd yr adroddiad yn nodi strategaeth cyllideb yr Awdurdod a'r rhagdybiaethau allweddol oedd yn sail i'r cyllidebau, fel y trafodwyd yn flaenorol gan yr Aelodau mewn gweithdai ar baratoi cyllideb. Er bod y ffigurau terfynol yn dal heb gyrraedd oddi wrth Lywodraeth Cymru, rhagwelwyd y byddai gostyngiad o 6% yn y Grant craidd i'r APC a'r Ardoll ar gyfer 2016/17, sef gostyngiad o £253,000 mewn cyllid craidd. Hefyd, nid oedd y Llywodraeth bellach yn rhoi ad-daliad Yswiriant Gwladol ar gyfer cynlluniau pensiwn oedd wedi contractio allan oedd wedi golygu ychwanegu £46,000 arall o bwysau cyllidebol ar yr Awdurdod. Roedd mesurau i fynd i'r afael â'r diffyg yn y gyllideb a chlustnodi'r 'arbedion eraill' o £292,000 a nodir yn yr adroddiad wedi'i drafod yn flaenorol gyda'r Aelodau.

Yn sgîl y gostyngiad parhaus yn y Grant i'r Parc Cenedlaethol ac yn nharged y llywodraeth ar wariant cyhoeddus dros gyfnod y senedd bresennol, dywedwyd nad oedd yn debygol y byddai newid yn y duedd hon yn y cynllun ariannol tymor canolig, a'r disgwyl oedd y byddai gostyngiadau pellach. Rhoddwyd ffigurau oedd yn dangos effaith gostyngiadau o 5% a 10% dros y cyfnod o bum mlynedd hyd at 2020/21, a byddai hyd yn oed yr isaf o'r ddau opsiwn hyn yn golygu her sylweddol i'r Awdurdod i'w goresgyn os oedd i gydbwyso ei gyllideb, hyd yn oed a derbyn y bydd cynnydd mewn grantiau eraill ac incwm a gynhyrchir yn lleol. Roedd mesurau i fynd i'r afael â'r angen am arian wrth gefn wedi cael ei drafod yn y gweithdai ar y gyllideb yn ystod y flwyddyn.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu manylion y gyllideb gyfalaf fyddai'n gyfanswm o £15,900 yn 2016/17, ac roedd yn cynnwys offer technoleg gwybodaeth newydd, deunydd esboniadol ar ardd furiog Caeriw, tai crwn Castell Henllys, prosiectau arbed ynni, adnewyddu'r fflyd, integreiddio meysydd parcio a systemau cynllunio electronig/rheoli dogfennau.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys manylion am gronfeydd wrth gefn yr Awdurdod ar ddiwedd 2015/16, ynghyd â'r balansau a ragwelir ar ddiwedd 2016/17. Roedd hyn yn dangos y byddai'r gwarged a ddisgwylir yn 2015/16 yn rhoi balans ar ddiwedd y flwyddyn yn y cronfeydd wrth gefn cyffredinol o £605,000, a'r disgwyl y bydd y ddysgl yn wastad ar



ddiwedd y flwyddyn 2016/17. Fodd bynnag, os na chymerir camau pellach, byddai'r balans wrth gefn yn gostwng. Nodwyd y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, sydd wedi'u neilltuo ar gyfer prosiectau penodol, a barnwyd bod y cronfeydd hyn yn briodol ar hyn o bryd, er y gallai newidiadau annisgwyl yn y sefyllfa ariannol ei gwneud yn ofynnol i'r rhain gael eu hadolygu ymhellach.

Atebodd y Swyddogion nifer o gwestiynau gan yr Aelodau ynghylch yr adroddiad oedd ger eu bron, gan gynnwys awgrym i sefydlu cronfa wrth gefn 'Buddsoddi i Arbed'.

PENDERFYNWYD:

- cymeradwyo cyllideb ddrafft 2016/17 mewn egwyddor yn amodol ar nodi bod yr amcangyfrif o Grant y Parc Cenedlaethol/Ardoll heb ei gadarnhau hyd yn hyn.
- nodi'r rhagamcanion ariannol ar gyfer 2017/18 i 2020/21.

(a) Yr Ardoll ar Gyngor Sir Penfro

Atgoffodd y Prif Swyddog Cyllid yr Aelodau bod Adran 71 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995, isadran 3, yn pennu'r modd o gyhoeddi'r ardoll i'w chodi ar Gyngor Sir Penfro. Roedd y datganiad canlynol yn cydymffurfio â'r gofyniad hwn.

Ardoll ar Gyngor Sir Penfro



Rhaid i'r Awdurdod awdurdodi codi ardoll o £984,578 oddi wrth Gyngor Sir Penfro yn unol ag Adran 71 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 a Rheoliadau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Ardollau)(Cymru) 1995 OS 1995 Rhif 3019 fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Ardollau)(Cymru)(Diwygio) 1996:

- y swm fydd ei angen i dalu am wariant yr Awdurdod yn y flwyddyn dan sylw yn y cyfrif Refeniw yw
£5,465,283
- gwneud y ddarpariaeth sy'n briodol i dalu am hapddigwyddiadau, a'r gwariant hwnnw i'w dalu o'r Cyfrif Refeniw
£Dim
- y swm sydd ei angen i sicrhau bod gweddill digonol gan yr Awdurdod yn ei



Gyfrif Refeniw	£Dim
• y swm sydd ei angen ar yr Awdurdod i dalu am unrhyw ddiffyg a ddygwyd ymlaen o'r flwyddyn ariannol flaenorol	£Dim
Is-gyfanswm	£5,465,283
YN LLAI O	
• Grant Adran 72	£2,953,720
• Incwm a gredydir i'r Cyfrif Refeniw	£1,526,912
• symiau eraill heb eu cynnwys uchod sy'n debygol o fod ar gael yn ystod y flwyddyn	73 £4,480,705
Yr ardoll sy'n ofynnol	<u>£984,578</u>

Hysbyswyd yr Aelodau bod rhaid rhoi gwybod i Gyngor Sir Penfro beth yw swm yr ardoll swyddogol sy'n ofynnol erbyn y 15^{fed} o Chwefror. Argymhellwyd bod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol yn parhau â'r trefniadau cyfredol o dderbyn 12 rhandal cyfartal misol ar y 12fed o bob mis calendr, neu cyn hynny, drwy drosglwyddiad banc.

Holodd yr Aelodau sut oedd lefel yr ardoll yn cymharu â'r blynyddoedd blaenorol. Atebodd y swyddogion drwy ddweud bod y swm yn £62,000 yn llai mewn termau absoliwt. Fodd bynnag, roeddent yn deall bod y swm y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ei dalu i'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn cael ei ddigolledu yn y swm y maent yn ei dderbyn oddi wrth Lywodraeth Cymru. Roedd hyn yn syndod i'r Aelodau gan fod yr ardoll yn ymddangos fel praesept ar fil treth y cyngor.

PENDERFYNWYD awdurdodi ardoll o £984,578 (*neu swm priodol arall a benderfynir ar ôl derbyn cadarnhad am y cyllid net a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru*) ar Gyngor Sir Penfro am y flwyddyn 2016/17.

(b) Dangosyddion Cod Materion Ariannol

Roedd Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol ystyried Cod Materion Ariannol Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddu (CIPFA) wrth bennu cyllidebau blynyddol. Roedd y Cod Materion Ariannol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ystyried y Dangosyddion Materion Ariannol sy'n cynnwys amcangyfrif o'r gwariant a chyllido a'r union wariant a chyllido, a'r terfynau ar y ddau.



Bwriad y dangosyddion hyn oedd ategu a chofnodi penderfyniadau a wneir yn lleol, ac nid cymharu un awdurdod yn erbyn y llall. Fodd bynnag, gan nad oedd gan yr Awdurdod unrhyw ddyledion yn awr ac nad oedd unrhyw fwriad ar hyn o bryd i fenthycu rhagor o arian gan fod y cynlluniau gwariant cyfalaf i'w hariannu naill ai gan gronfeydd refeniw, cymorth grant allanol neu dderbyniadau cyfalaf, nid oedd sawl un o'r dangosyddion yn berthnasol. Roedd yr adroddiad felly ond yn nodi'r dangosyddion hynny oedd yn berthnasol ar hyn o bryd, a gofynnwyd i'r Aelodau fabwysiadu'r Dangosyddion Materion Ariannol fel y'u cyflwynwyd.

Hefyd, cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid y Strategaeth Fuddsoddi ar gyfer 2016/17 yn unol â'r canllawiau statudol ac i ategu'r system fenthycu ddarbodus. Roedd y Strategaeth hefyd yn ategu dogfen CIPFA "Rheoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus: Cod Ymarfer a Nodiadau Canllaw Traws-Sector".

PENDERFYNWYD bod yr Aelodau

- a) yn fabwysiadu'r Dangosyddion Materion Ariannol, fel y'u cyflwynwyd.
- b) yn cymeradwyo'r Strategaeth Fuddsoddi a'r Datganiad Polisi ar Reoli'r Trysorlys ar gyfer 2016/17.

10. Diweddariad ar y Safonau Ariannol

Atgoffwyd yr Aelodau bod Safonau Ariannol yr Awdurdod yn cael eu hadolygu bob pedair blynedd, ac roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyo'r Safonau oedd wedi'u diweddarau. Mae'r Safonau Ariannol yn rhoi fframwaith ariannol y gall yr Awdurdod weithredu o'i mewn, ac yn sicrhau y cydymffurfir â'r ddeddfwriaeth, bod asedau'r Awdurdod yn cael eu diogelu, bod yr arian sydd ar gael yn cael ei wario a'i reoli'n effeithlon, bod rhwymedigaethau yn cael eu bodloni, a gwerth gorau yn cael ei sicrhau.

Roedd y wybodaeth ddiweddaraf yn amlygu'r newidiadau yn strwythurau'r Awdurdod, o ran newidiadau mewn cyfrifoldebau swyddi a Phwyllgorau, y newidiadau ym mholisiau'r Awdurdod a'r newidiadau mewn deddfwriaeth y llywodraeth. Roedd y prif newidiadau eraill yn ymwneud â chanllawiau caffael a phrydlesi, grantiau a thrwyddedau. predetermination

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Safonau Ariannol a ddiweddarwyd.

11. Canllawiau'r Cyngor Sir ar Weithredu'r premiymau treth y cyngor ar dai gwag tymor hir ac ail gartrefi

Cyn i'r swyddog ddechrau ar ei chyflwyniad, gofynnodd sawl un o'r Aelodau a benodwyd gan Gyngor Sir Penfro (CSP) am gyngor gan y Swyddog Monitro ynglŷn â materion yn ymwneud â rhag-benderfynu, o gofio y byddent yn ystyried y mater fel Cynghorwyr fis Mawrth.



Dyweddodd y Swyddog Monitro gan fod yr Awdurdod yn ystyried ei ymateb i ymgynghoriad, y byddai unrhyw gyfyngu ar Gynghorwyr i gymryd rhan yn gwneud yr ymgynghori hwnnw yn aneffeithiol. Ar ôl cael gair â'r Swyddog Monitro yn CSP, roedd y ddau o'r farn na fyddai cymryd rhan yn y ddadl y diwrnod hwnnw, fel mater o egwyddor, yn rhwystro Cynghorwyr rhag cymryd rhan pan ddeuai'r mater gerbron cyfarfod llawn o'r Cyngor Sir. Fodd bynnag, yr Aelod unigol sydd i wneud y penderfyniad terfynol ar sail ei wrthrychedd wrth ystyried y mater.

Yn ddiweddarach yn y ddadl, codwyd y cwestiwn a oedd gan yr Aelodau oedd yn berchen ar ail gartref fudd oedd angen ei ddatgan mewn perthynas â'r eitem hon. Dywedodd y Swyddog Monitro unwaith yn rhagor mai mater i'r Aelodau unigol oedd hyn. Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

Roedd adroddiad y Pennaeth Cyfarwyddyd yn egluro y byddai awdurdodau lleol, yn dilyn gweithredu Deddf Tai (Cymru) 2014 a Rheoliadau cysylltiedig Llywodraeth Cymru, yn gallu codi premiwm o hyd at 100% o gyfradd safonol treth y cyngor ar dai gwag hirdymor ac ail gartrefi yn eu hardaloedd o'r 1af o Ebrill 2017. I gyflwyno tâl premiwm fis Ebrill 2017 roedd rhaid i'r awdurdod lleol roi blwyddyn lawn o rybudd, a byddai adroddiad yn cael ei ystyried felly yng nghyfarfod y Cyngor Sir fis Mawrth 2016. Roedd CSP wedi cynnal asesiad drafft o'r effaith rheoleiddiol ac wedi dechrau ar ymgynghoriad i gynorthwyo ei benderfyniad. Fodd bynnag, nid oedd yn fwriad gan y Cyngor Sir wneud penderfyniad ynghylch a ddylid cyflwyno premiwm ar dai gwag ar hyn o bryd gan fod y mater yn cael ei ystyried mewn ymgynghoriad ar wahân yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Roedd y Cyngor wedi gofyn am farn yr Awdurdod oherwydd ei rôl mewn galluogi tai fforddiadwy.

Roedd yr adroddiad yn nodi arfarniad swyddog o'r canllawiau a chrynodeb o'r effeithiau posibl ar y Parc Cenedlaethol, gan atodi'r canllawiau yn ogystal â data ar y nifer o ail gartrefi, llety gwyliau a phrisiau tai. Roedd y swyddogion wedi dod i'r casgliad, ar y cyfan, o ystyried:

- bod pwysau allanol ar y farchnad dai mewn rhannau o Sir Benfro, oedd yn gwneud tai yn fwy anodd eu fforddio.
- bod ymgynghoriad diweddar gan y Cyngor yn dangos cefnogaeth leol i gynnig o'r fath yn Sir Benfro.
- bod eithriadau ar gael i eithrio busnesau llety gwyliau
- bod cyfle i newid y trefniadau presennol i wneud mwy o ddefnydd o dai a gwneud y defnydd gorau o'r stoc bresennol.
- bod y mecanwaith hwn yn gyfle i godi refeniw drwy osod treth y cyngor uwch er budd uniongyrchol y cymunedau lleol (gan gynnwys y potensial ar gyfer mwy o wariant ar ddarparu tai fforddiadwy) a



gwneud iawn am y golled economaidd sydd wedi codi yn sgîl lefel uchel o dai heb fod yn brif gartrefi mewn rhai ardaloedd.

a bod y cyllid yn cael ei ddefnyddio fel yr awgrymwyd i ddiwallu anghenion tai lleol yn unol â bwriad y polisi o godi premiwm treth y cyngor, y dylai'r cynnig gael ei gefnogi mewn egwyddor.

Dechreuodd yr Aelodau drwy ofyn pa dai fyddai'n cael eu cynnwys yn y cynigion, a hefyd ar beth fyddai'r arian a godir yn cael ei wario petai'r Cyngor yn cymeradwyo'r cynigion. Atebodd y swyddog drwy ddweud yn ôl y diffiniadau nad ail gartref yw un sydd wedi'i gofrestru ar gyfer trethi busnes fel llety gwyliau neu eiddo sydd ag amodau deiliadaeth sy'n atal preswyllo gydol y flwyddyn. O ran yr arian a godir, roedd disgwyl i'r arian hwn gael ei ddefnyddio i ymateb i effeithiau yr ail gartrefi ar gymunedau lleol, gyda sylw penodol ar dai fforddiadwy. Fodd bynnag, nid oedd y canllawiau llawn wedi'u cyhoeddi eto gan Lywodraeth Cymru ac roeddent hefyd yn bwriadu cyflwyno system o fonitro'r modd y caiff yr arian ei wario.

Roedd nifer o'r Aelodau yn bryderus iawn nad oedd digon o feddwl wedi'i roi i'r cynllun a'i fod wedi'i gyflwyno ar ormod o frys, heb ddigon o amser i ystyried y goblygiadau economaidd, yn enwedig ar fusnesau lleol a'r diwydiant twristiaeth lleol. Roeddent hefyd yn glir y dylai cymunedau sydd â chyfran uchel o ail gartrefi allu elwa'n uniongyrchol ar y premiwm drwy ddarparu mwy o dai fforddiadwy, yn hytrach na chael ei wario yn y sir yn fwy cyffredinol ar bethau megis ffyrdd. Hefyd mynegwyd pryderon nad oedd CSP yn ymgynghori ar weithredu'r cynigion ar dai gwag gan y barnwyd y dylai hyn fod wedi'i gyflwyno yn gyntaf, gan ganiatáu mwy o amser i ystyried codi premiwm ar ail gartrefi. Ofnwyd y byddai dodrefn yn cael eu gwaredu o ail gartrefi, a thrwy hynny yn eu heithrio o'r premiwm, ond hefyd yn cael gwared ag unrhyw gyfraniad y gallent fod wedi'i wneud i'r gymuned leol.

Barn Aelodau eraill, fodd bynnag, er bod y rheoliadau ond wedi'u cyhoeddi yn ddiweddar, oedd bod angen i CSP ymgynghori yn ddiymdroi neu fel arall ni fyddent yn gallu rhoi'r cynigion mewn grym yn y flwyddyn ariannol 2017/18 ac felly yn colli allan ar ffrwd o refeniw y mae gwir angen amdano yn y Sir. Er bod rhywfaint o amheuaeth ynglŷn â chywirdeb y ffigurau a roddwyd ar gyfer ail gartrefi yn y gwahanol gymunedau, credai nifer o Aelodau nad oedd ail gartrefi yn cyfrannu dim at y gymuned - o ran cymryd rhan mewn clybiau a chymdeithasau a hefyd o ran defnyddio busnesau lleol. Er nad oeddent yn erbyn ail gartrefi fel y cyfryw, teimlai un Aelod y dylid gosod terfyn ar eu niferoedd drwy ei gwneud yn ofynnol i gael caniatâd newid defnydd drwy'r system gynllunio.



Eglurodd y swyddog bod y ffigurau yn ei hadroddiad wedi'u cymryd o gofrestr treth y cyngor CSP, yn hytrach na'r cyfrifiad gan nad oedd y ddwy set o ffigurau yn cymharu'n uniongyrchol.

Cynigiwyd bod casgliadau'r swyddogion yn ffurfio ymateb yr Awdurdod i'r ymgynghoriad, ynghyd â'r pryderon a fynegwyd gan yr Aelodau yn y cyfarfod – roedd y rhain ar y cyfan yn ymwneud â gweithredu ar frys, dim digon o wybodaeth, diffyg corlannu'r arian a gynhyrchir, a dim digon o ystyriaeth i'r goblygiadau gan arwain o bosibl at ganlyniadau anfwriadol. Cafodd y cynnig hwn ei roi i bleidlais, a enillwyd o 10 pleidlais o blaid, 3 yn erbyn gyda 3 yn ymatal.

PENDERFYNWYD bod ymateb yr Awdurdod i ymgynghoriad Cyngor Sir Penfro ar gyflwyno premiwm treth y cyngor ar ail gartrefi yn cynnwys casgliadau'r Swyddogion fel y nodir yn yr adroddiad ynghyd â phryderon yr Aelodau oedd yn ymwneud mewn egwyddor â gweithredu ar frys, dim digon o wybodaeth, diffyg corlannu'r arian a gynhyrchir, a dim digon o ystyriaeth i'r goblygiadau gan arwain o bosibl at ganlyniadau anfwriadol.

12. Cynllun Corfforaethol 2016/17

Dywedwyd ei bod yn ofynnol i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol o dan y Mesur Llywodraeth Leol gyhoeddi ei Gynllun Gwella cyn gynted ag sy'n ymarferol ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd. Roedd y ddeddfwriaeth Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ddiweddar yn ei gwneud yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus gyhoeddi cynllun yn dangos sut fyddent yn cymryd camau tuag at gyflawni'r nodau llesiant. Nid oedd yn sicr eto a fyddai'n ofynnol i'r Awdurdod barhau i gydymffurfio â'r Mesur Llywodraeth Leol. Felly, er mwyn lleihau'r angen am ddyblygu gwaith, bwriedir i'r cynllun corfforaethol drafft gyflawni gofynion y ddau ddarn o ddeddfwriaeth drwy ddatblygu amcanion llesiant yr Awdurdod, a allai hefyd gael eu hystyried yn amcanion gwella.

Roedd y cynllun a gyflwynwyd yn parhau yn gynllun drafft, a gwahoddwyd yr Aelodau i gymeradwyo'r dull gweithredu a rhoi sylwadau ar y cynnwys. Byddai fersiwn derfynol y cynllun corfforaethol yn cael ei gyflwyno gerbron yr Aelodau i'w gymeradwyo fis Mawrth/Ebrill.

Roedd yr Aelodau'n hapus â'r ymagwedd gyffredinol a gymerir yn y cynllun, ond awgrymwyd y dylid rhoi ystyriaeth bellach i'r system o roi 'tic' a ddefnyddir yn yr adroddiad i wneud y graddau y mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â'r amcanion yn gliriach. Awgrymwyd hefyd gan mai un o ddibenion yr Awdurdod oedd 'gwarchod a gwella', y dylai'r geiriad hwn gael ei nodi drwy'r ddogfen lle cyfeirir at 'gadwraeth'.

NODWYD.



[Gadawodd y Cynghorydd M Williams y cyfarfod yn ystod ystyried yr eitem ganlynol.]

13. Cynllun gweithredu i gyflawni argymhellion y Cydbwyllgor Craffu ar effaith polisïau a gwaith yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ar weithgarwch economaidd Parciau Cenedlaethol Arfordir Penfro ac Eryri

Atgoffwyd yr Aelodau bod adroddiad gan y Cyd Bwyllgor Craffu wedi'i gyflwyno gerbron eu cyfarfod fis Gorffennaf 2015 ar effaith polisïau a gwaith yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ar weithgarwch economaidd Awdurdodau Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac Eryri. Roedd y papur hwnnw yn cynnwys argymhelliad y dylid paratoi Cynllun Gweithredu i fwrw ymlaen â'r gwaith ar yr argymhellion yn yr adroddiad, ac roedd y cynllun gweithredu hwnnw gerbron yr Aelodau i gytuno arno.

Roedd yr Aelodau'n falch o weld y Cynllun Gweithredu, fyddai'n sicrhau bod gwaith y Pwyllgor yn dwyn ffrwyth. Awgrymwyd bod gweithdy Aelodau yn cael ei drefnu i drafod adeiladau, yn enwedig adeiladau amaethyddol mawr, mewn tirweddau gwarchodedig. Gellid gwahodd busnesau i'r gweithdy hwn fyddai'n fforwm i bawb ddeall y materion hyn yn well. Cytunodd y swyddogion y byddent yn ystyried trefnu cyfarfod yn ddiweddarach yn y flwyddyn. O ran monitro'r Cynllun Gweithredu, byddai adroddiadau'n cael eu cyflwyno gerbron cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD cytuno ar y Cynllun Gweithredu Craffu ar y Cyd.

[Gadawodd y Cynghorydd M Evans y cyfarfod yn ystod ystyried yr eitem ganlynol.]

14. Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Wasanaethau Cymorth

Atgoffwyd yr Aelodau bod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol, fis Mawrth 2015, wedi cytuno i sefydlu Grwpiau Gorchwyl a Gorffen ar Strategaethau i oruchwylio'r gwaith o ddatblygu dulliau newydd o gyflenwi gwasanaethau. Hyd yn hyn roedd dau grŵp wedi'u sefydlu i edrych ar ffyrdd eraill o reoli meysydd parcio sy'n eiddo neu a brydlesir gan yr Awdurdod, a newidiadau posibl i ddarparu gwybodaeth i ymwelwyr. Roedd yr adroddiad yn cynnig sefydlu grŵp tebyg i ystyried cyflawni swyddogaethau gwasanaethau cymorth yn y dyfodol. Rhagwelwyd y byddai'r grŵp yn y lle cyntaf yn cyflwyno adroddiad erbyn mis Rhagfyr 2016, ond yn amodol ar gymeradwyaeth yr Awdurdod, byddai'r grŵp yn parhau ar ôl y dyddiad hwnnw.

PENDERFYNWYD:

- a) cytuno â'r cynnig i sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i ystyried dulliau o gyflawni swyddogaethau gwasanaethau cymorth yn y dyfodol



- b) cytuno â'r Cylch Gorchwyl ar gyfer y Grŵp oedd ynghlwm wrth yr adroddiad;
- c) penodi'r Aelodau canlynol ar y Grŵp Gorchwyl a Gorffen: Mr D Ellis, Cynghorydd ML Evans, Mrs G Hayward, Cynghorydd RM Lewis, Cynghorydd P Morgan a'r Cynghorydd M Williams.

15. Defnyddio Safle'r Parc Cenedlaethol yn y dyfodol yng Nghilrhedyn, Llanychaer

Atgoffwyd yr Aelodau bod cyfarfod blaenorol yr Awdurdod fis Tachwedd 2015 wedi ystyried cynllun busnes oedd wedi'i gyflwyno gan Coed Cymru a Tir Coed i gymryd drosodd y cyfrifoldeb am ran o safle'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghilrhedyn ac i reoli coetir cymunedol a menter cynnyrch o'r safle hwnnw.

Roedd rhan o'r prosiect yn ddibynnol ar gyllid y Cynllun Datblygu Gwledig (CDG). Fodd bynnag, roedd amserlen yr ariannu wedi bod yn arafach na'r disgwyl ac ni ragwelid y gallai'r fenter Tir Coed/Coed Cymru yng Nghilrhedyn gychwyn tan fis Rhagfyr 2016.

Er bod y nod terfynol o bartneriaeth gyda Tir Coed yng Nghilrhedyn yn ddymunol iawn i'r Awdurdod, roedd yr oedi hwn yn golygu cost sylweddol i'r Awdurdod gan y byddai'n rhaid i'r trefniadau gweithio presennol aros yn eu lle am ddeng mis arall. Fodd bynnag roedd costau gweithredu yng Nghilrhedyn wedi gostwng yn sylweddol yn 2015-16 a rhagwelwyd y gellid dygymod â'r oedi dan sylw.

Roedd yr Aelodau o'r farn mai maen tramgwydd yn y broses oedd hyn ac mai parhau â'r gweithrediadau presennol oedd y ffordd fwyaf cost effeithiol o symud ymlaen ar hyn o bryd.

PENDERFYNWYD cytuno i barhau i redeg Canolfan Cilrhedyn ar y lefel staffio presennol tan ddiwedd 2016, cyn belled â bod tystiolaeth glir bod y bartneriaeth Coed Cymru/Tir Coed yn cymryd camau ymlaen wrth ddiffinio eu cynllun busnes a chael yr arian Ewropeaidd oedd ei angen.

